

Rhyfeddodau'r Wawr a'r Machlud

Does dim blodeugerdd natur gynhwysfawr yn y Gymraeg - ac mae hynny'n beth rhyfedd wrth ystyried bod byd natur yn amlwg iawn yn ein barddoniaeth ers y Cynfeirdd, bymtheg can mlynedd yn ôl. 'Hi hen, eleni ganed,' meddai Llywarch Hen am y ddeilen, gan osod dyddiau dyn a dyddiau deilen ar yr un boncyff. Mae'r hen benillion telyn wedyn yn canu am natur, ac eto profiad dyn glywch chi yn amlach na pheidio:

Er maint sydd yn dy gwmwl tew
O haul a rhew a rhyndod,
Fe ddaw eto haul ar fryn,
Nid ydyw hyn ond cawod.

Sawl gwaith yr ydan ni wedi dyfynnu rhan neu rannau o'r pennill hwnnw gyda golwg ar godi calonnau? Wrth ddechrau crafu dan yr wyneb, efallai nad oes cymaint â hynny o ganu natur 'pur' yn y Gymraeg chwaith - mwy o gyfosod darluniau o fyd natur er mwyn mynegi profiadau dynol.

Mae canu natur yn faes eithriadol o eang, a dwi am gyfyngu fy hun i un ran fechan iawn o'r byd hwnnw yn y sgwrs hon - sef ymateb y beirdd i doriad gwawr a machlud haul. Dyna ddau gilbos mawr ein diwrnod ni, y ffiniau hynny rhwng golau a thywyllwch.

Mae na stori am ymgynghorydd cerdd sirol yn dod heibio'r ysgol i wrando ar y plant yn canu, gan ofyn i rai ganu'n unigol. Roedd o wedi ei blesio yn arw gan lais un eneth a dyma fo yn deud wrthi: ti'n canu fel aderyn. Ac er mawr embaras i'r athrawes, dyma hitha yn gofyn i'r ymgynghorydd: Pa un?

Roedd y fechan yn llygad ei lle. Dan ni'n sôn am goedan yn yr ardd, am flodau tani a deryn yn canu arni. Pan fydda i yn gneud gwaith sgwennu efo plant mi fydda i'n gofyn iddyn nhw feddwl - pa goeden, pa flodyn, pa dderyn. Nid yn unig er mwyn cryfhau eu geirfa nhw ond iddyn nhw gael darlun cliriach yn eu meddyliau. Ac mae pa adeg o'r dydd a pha dymor ydi hi yr un mor bwysig. Mae 'na fyd o wahaniaeth rhwng robin goch ar gelynen ar fore o Chwefror a mwyalchen ar fedwen ar hwyrddydd o Fai. Roedd R. Williams Parry yn hoff o ddyfynnu Thomas Hardy a ddwedodd y dylai bardd nabod pob coeden - nid yn ôl siâp ei deilen; nid yn ôl ansawdd ei rhisgl na ffurf ei changhennau, ond yn ôl swm y gwynt yn ei changhennau ar noson dywyll o Dachwedd. Dyna ichi brawf ar sylwgarwch!

Un peth fydda i yn sylwi arno wrth fynd o amgylch ysgolion ydi bod enwau gwahanol rywogaethau yn prinhaus ymysg plant. Tydi byd natur ddim ar y cwricwlwm yn anffodus. Tre lan môr yng Ngwynedd ac mi roedd hi'n gryn ymdrech cael run yn y dosbarth i enwi aderyn. 'Sîgyl' ges i yn y diwedd. Mi wn am ryw dad oedd yn mynd â'i fab a'i fêd am dro. 'Yli swan yn fanna,' meddai'r mab, a'r tad yn deud ar ei union: 'Gwranda - alarch ydi'r gair am swan'. Chydig pellach ar hyd yr afon a dyma'r mêt yn deud: 'Yli, Harlach arall yn fan'na'.

Ydyn, mae plant yn cael y manion yn anghywir weithiau, ond ar y cyfan maen nhw yn dda iawn am sylwi ar y pethau bychain. Ac efallai, ym myd natur - fel ym myd barddoniaeth - mai'r petha bychain iawn iawn yna sy'n cyfri.

Efallai nad ydan ni yn mynd â'r plant am dro yn ddigon aml. Efallai nad ydi bwrdd natur a taith natur ddim yn ffasiynol bellach. Yr asesiadau risg bondigrybwyll yma ia?

Pam fy mod i'n sôn cymaint am blant meddach chi a finnau wedi dewis 'gwawr' a 'machlud' yn destun? Y plant sy'n cynrychioli'r wawr yn ein bywydau ni yn aml. Mae'n hawdd dotio atyn nhw. Mae'r profiad o fod yn rhan o enedigaeth eich plentyn eich hun yn un ysbrydol, uchel. Er gadael stafell y geni, gadael y bychan yn ei gôt plastig, mae'i wyneb yn aros o flaen eich llygaid. Lle bynnag dach chi'n edrych ar y ffordd adra, dach chi'n gweld ei wyneb, ei esgyrn, ei fochau a'i nodweddion o.

Gwelwn lun ein mab yn 'sgwyddau Siabod
A'i wedd ar war llechweddau'r eryrod,
Ei lygaid agos yng ngwlith y rhosod
A'i ruddiau glân yng ngardd y gloÿnnod;
Haul y wawr oedd awr ei ddod a brigau
Ei gyhyrau oedd coed y gwiwerod.

Mae cyfeillion a chydnabod imi wedi cyfaddef eu bod hwythau wedi rhannu'r un wefr. Roedd ei wyneb o ar y windsgrin, yr holl ffordd adra o Bronglais,' meddai un ohonyn nhw.

'Fydda i'n hoff iawn o blant ifanc iawn iawn,' meddai Wil Sam wrtha' i wrth gydio yn y mab ieuenga' 'cw pan oedd o'n bythefnos oed a'i luchio fo at y nenfwd yn y gegin. A'i ddal o wedyn. 'Fel hyn fydda i'n eu lecio nhw. Ifanc iawn, iawn neu yn hen iawn, iawn. Does gen i fawr o fynadd efo'r petha yna yn y canol.'

Mae plant yn ymateb yn reddfól i fyd natur ac i gyfrinachau natur. Yn arbennig y gyfrinach fawr honna o ble dan ni wedi dwad. Roedd 'na hogyn fferm oedd efo'i dad ym mhopeth oedd ar fynd - roedd y tad yn deud ei fod o fel trelar tu ol iddo fo drwy'r dydd. Roedd y bychan yn hwylus iawn ar gyfnod geni lloi - roedd yn fodlon treulio oriau yn y beudy yn cadw llygad ar y fuwch, gan wybod yn union pryd i fynd i nol ei dad. Wel, un diwrnod mi aeth ei fam i'r ward famaeth - nain oedd yn gwarchod. Dyla alwad ffon, a'r newyddion da am enedigaeth brawd bach i'r bychan. 'Wyt ti isio gair efo dy fam?' ofynnodd y nain. 'Sgin ti rw bath i'w ofyn iddi hi?' Cysidrodd y bychan am chydig ac yna dyma'i gwestiwn o - 'Sut flas arno fo pan nest ti i lyfu o?'

Gwawr a machlud. Maen nhw'n gry iawn yn ein hymwybyddiaeth ni, yn gerrig milltir pwysig dyddiol ym myd natur hefyd. Mae plant yn ymateb yn reddfól i'r rhyfeddodau yma, ond rydan ni oedolion yn tueddu i weld symbolau, delweddau o fyd pobol yn rhyfeddodau natur. Mae gwawr yn cynrychioli bywyd newydd, machlud yn ddarlun o fywyd yn dod i'w derfyn ac yn y blaen. Ond mae hi'n fwy cymhleth a chyfoethog na hynny yn unig hefyd.

Be maen nhw'n ei gynrychioli inni a be ydi'r lluniau dan ni'n eu gweld ar yr eiliadau arwyddocaol hynny? Troi at feirdd a barddoniaeth y bydda' i rwan a gweld pa ddefnydd sy'n cael ei wneud o ddelweddau gwawr a machlud mewn cerddi.

Un o'r englynion cynharaf i mi ei ddysgu oedd englyn Gwilym R. Tilsley i fis Medi:

Mis y cnau, mis cynhaeaf, mis gwair rhos,
Mis y grawn melynaf,
Mis gwiw cyn gormes gaeaf,
Mis liw'r aur, mis ola'r haf.

Englyn clasurol ei wead y dois i ar ei draws yng nghyfres Llyfrau Darllen Newydd, T. Llew Jones. Mae'n un o fyrdd o englynion ar destunau byd natur y gall rhywun ei ddyfynnu. Englynion disgrifiadol, darluniadol, diffiniadol ydi llawer iawn o'r rheiny darlun a'r dweud yn dda; diffiniad gyda fflach o weledigaeth yn ei gynffon. Petai rhywun eisiau cloddio, mae'n debyg y gellid canfod rhywbeth heblaw hynny yn englyn mis Medi mae perthynas dyn a thymhorau natur yn amlwg iawn ynddo fo. Y gair allweddol efallai ydi 'gormes'. Natur y gaeaf sy'n gormesu dyn yn y cyd-destun hwn oerfel, diffyg golau dydd, moelni natur, diffyg cnydau a ffrwythau a dim porfa i'w anifeiliaid. Ond o leiaf mae dyn yn gwybod hyn i gyd ac yn gwybod bod yn rhaid iddo baratoi ac englyn yn moli'r mis

sy'n cynorthwyo dyn i wynebu duwch y gaeaf ydi hwn. Mae popeth sy'n cael ei enwi yn gymorth rhag gormes y tymor difywyd cnau, cynhaeaf, gwair rhos, grawn, aur yr ñd, twf yr haf. Mae'r englyn yn gorfoleddu yng nghreffft gyntaf dynol ryw i ddofi ei gynefin, i adadsu natur i'w gynorthwyo i oroesi'r tymor caled. Englyn ydi o sy'n clymu tynged dyn a elfennau natur.

Yng ngherdd hir Madog gan T. Gwynn Jones, ar doriad gwawr mae'r tywysog a'i forwyr yn hwylio ar fwrdd Gwennan Gorn, gadael tir am y môr agored:

Bwriodd huan y bore ei leufer fel afon ysblennydd,
Chwyddodd ei lif dros lechweddau'r Eifl ag Eryri hir;
Treiddiodd ei liant rhuddaur i ddyfnaf ddu hafnau'r mynyddoedd,
Ton oedd yn gwrido tano, a chraig megis manlwch rhos;

Dechrau taith anturus sy'n digwydd yn ystod golau'r wawr yn y gerdd hon. Yn awdl 'Gwlad y Bryniau', mae T. Gwynn Jones yn dewis gosod y daith i ryfel yn ystod toriad gwawr hefyd.

A'r nos yn treio'n isel
I'r coed a'r pellterau cêl...

Draw ymagorai, dros drumau geirwon,
Ehangder awyr; ac yng ngodrëon
Y rhos, yr oedd ymryson diddarfod
Y môr a'i gryndod ym mrigau'r wendon.

Crwydrais ac o hir edrych
Dros hafnau a bryniau brych,
Gwelais o ben y golwg,
Tua'r wlad is, megis mwg;
Codai'n laswelw o'r coed yn ael isaf
Y rhos, gan äyro'n rhesi gwyn araf;
Ond huno oddi tanaf'roedd y wlad,
A'i hud diddirnad eto oedd arnaf.

Mae gwawr fel pe bai'n cynrychioli cyfnod o ansicrwydd, o fentro i'r anwybod i T. Gwynn Jones. Mae'r dyfodol yn niwlog ac aneglur ac mae yno beryglon. Mae dynion yn unig yn aml yn ei wawr o un yn mynd ar grwydr, criw bach yn mentro i'r môr.

Mae machlud ar y llaw arall yn cynrychioli dod ynghyd, cwmniaeth a diwylliant yng ngherddi mawr T. Gwynn Jones. Dod i ben taith y dydd y mae ei gymeriadau pan yw hi'n machlud. Unigrwydd yw profiad taith, ond mae cymdeithas a llety a

diddanwch gyda'r hwyr. Gwrandewch ar 'Gwlad y Bryniau' eto:

**A mi'n dyfod gan rodiaw
Ar ael y drum, a'r haul draw
Yn gostwng, a'r hen gastell
Wrth y bwlch fel lledrith bell,
O adfeilion y gaer codai filoedd
O leisiau nwyfus i'r lwydlas nefoedd,
Odidog ganiad ydoedd, onis caid
Yn deffro enaid dwfn y dyffrynnoedd.**

**Yn aml, mae machlud a hydrefu yn cyd-ddigwydd mae'r
bugeiliaid yn dychwelyd o'r hafotai i'r hendref at Galan Gaeaf.
Wedi cymdeithas chwâl y bryniau, mae tynnu at y tân ac at rannu
hwyrnosau yn ystod y gaeaf:**

**Gwedi'r haf a'r hael gynhaeaf,
Yn yr hendre hirnos gaeaf,
Wrth y tân yn sain y delyn,
Melys fydd y meddlyn melyn;
Melys fedd, melyn fedd,
Melyn fedd, melys fedd,
Haul ac awel, mêl y gwenyn,
Wele'n felyn, felys fedd!**

meddai o yn 'Cân y Medd'.

**Ar ddiwedd y dydd y mae'r cwmni'n crynhoi yr Hendref yn
'Anatiomaros'.**

**A dawnsiodd y meibion a'r glân rianedd
Yn llwyn y derw yn llawen dyrrau;**

**A hyd yn oed pan fo hen dderwydd y llwyth yn marw, a'i angladd
ar y môr yn y machlud, mae 'na gymdeithas o hyd yn y diwedd
hwnnw. Yr 'olaf gri' yn y gerdd ydi, 'Anatiomaros, aeth at y
meirwon'. Mae o wedi mynd at gwmni'r hen bobol. A dyna wych
ydi dull T. Gwynn Jones o ddisgrifio machlud:**

**Hwyr oedd a'r haul oedd yn rhuddo'r heli
Wrth agor lliwiog byrth y gorllewin,
A dur nen dawel dwyrain yn duo,
Dwyshau y tir yr oedd y distawrwydd,
A pharai osteg ar su'r fforestydd;
A llif yr afon yn llwfrhau hefyd
O flaen y llanw, a ddôl fel yn llinyn
O wreichion gemog am grychni gwymon,**

Neu asen grom ar ei thraws yn gwrymio;
A heidiau'r gwylain yn gweu drwy'i gilydd
Uwch ben yr afon, a'u chwiban rhyfedd
Megis rhyw alwad, galwad dirgelwch,
Galwad o'r môr am Gluder y Meirwon.

Suddodd yr haul; glasdduodd yr heli;
Yna'n waed ar y tonnau newidiodd
Yr hynt o aur.

Dyma droi at fardd arall – efallai mai hwn ydi'r bardd natur 'pur' mwyaf yn y Gymraeg. Ar ôl y tywydd caled, yr ochr draw i'r heth a'r hirlwm mae blodau'r gwanwyn. 'Och! na pharhaent' oedd ymateb R. Williams Parry i bersawr a phaent clychau'r gog ac mae'n siâr bod hiraeth a thristwch y ddynoliaeth yn yr ebychiad hwnnw. Dyn, meddan nhw, ydi'r unig greadur byw gydag ymwybyddiaeth o amser ac y mae hynny yn ei boeni fo ydi'r unig un yn ei fyd sy'n gwybod fod golau dydd yn dod i ben, fod pob tymor yn dirwyn at ei derfyn, fod pob rhyfeddod yn darfod, bod ei fywyd ei hun wedi'i fesur.

Gormes amser mi all hwnnw godi'r felan ar ddyn. Neu mi all godi awydd arno i fwynhau pob eiliad i'r eithaf, gwneud yn fawr o bob profiad am ein gwybod nad oes eiliad fel yr eiliad hon, na 'dwthwn fel y dwthwn hwn'. Er mwyn cael y mwynhad yma, mae'n rhaid sylwi, mae'n rhaid hel gwybodaeth a phrofiadau ac mae'r manylder yna yn y pennill yma o ddarganfod cyffrous gan R. Williams Parry:

Dan goed y goriwaered
Yn nwn ystlysau'r glog,
Ar ddôl a chlawdd a llechwedd
Ond llechwedd lom yr og
Y tyf y blodau gleision
A dyf yn sãn y gog.

Blodau gwylltion ydyn nhw ac mewn llefydd prin a gwyllt mae eu canfod. Dydi'r 'atgofus bersawr' na'r 'hen lesmeiriol baent' ddim i'w canfod lle mae dyn wedi bod yn arddu'r tir. Mae hyn yn rhoi'r felan inni am yr eilwaith mae rhyfeddodau'r byd yn fyrhoedlog, ond hefyd maen nhw dan fygythiad yr union greadur sydd efo'r crebwyll i weld y breuder, sef dyn!

Mae amheuaeth o ymyrraeth dyn yng nghynefinoedd natur yn ddealladwy wrth ystyried y safbwynt hwnnw. Oherwydd hynny, mae apêl gref at 'ysblander bore'r byd' yng ngwaith R. Williams Parry, cyn bod dyn a'i ddawn a'i dechnoleg wedi dechrau llygru

pethau. Bore oedd hi pan welodd o'r llwynog megis seren wib; 'y wawrddydd hardd' oedd hi hefyd pan welodd o greaduriaid swil yn meddiannu'r caeau a'r gerddi:

'Rhyfedd fu gweled y draenog ar lawnt y paun
A chael y cwningod yn deintio led cae o'u twnelau,
Y lefran ddilety'n ddibryder ar ganol y waun,
Y gwan anhygoel yn amlwg yn nâr y sianelau.'

Mae rhyw ddiniweitrwydd cynoesol i'r rhyfeddodau hyn; diniweitrwydd y mae R. Williams Parry am ei gofleidio a'i amddiffyn gymaint felly nes ei fod o'n annog yr haul i aros lle mae, fel bod dyn hefyd yn aros yn ei wely yn lle codi i ailgynnau tân ar yr aelwyd a chwythu'i fwg drwy'i gyrn simnai: 'ei wared o'i wae, a'r ddaear o'i wedd a'i sawyr'. Dyna braf fuasai hi heb na gwep dyn nac ogla dynoliaeth ar natur lân y byd cynnar!

Ond wedi'r bore, mi ddaw hi'n bnawn. Mae'r bardd yn mynd am dro eto rhwng Llanllechid a Llanrwst y tro hwn, ac mae 'na olwg arall ar bethau. Yno mae 'na griw o weithwyr yn codi peilon 'plannu'r peilon', ydi disgrifiad R. Williams Parry, gan fod yr 'ysgerbwd gwyn' hwn, y 'llymbar llonydd' fel mae'r bardd yn ei alw fo, fel petai o'n fyw, yn hynod o werthfawr a phwysig i fyd y criw yma. Dyna ddiwedd ar natur ar y ffridd honno, meddai R. Williams Parry wrtho'i hun. Ond mae'r tro hwnnw 'heddiw'r pnawn' yn datod y dadrith rhagfarnllyd.

Y Peilon

Tybiais pan welais giang o hogiau iach
Yn plannu'r peilon ar y drum ddi-drwst
Na welwn mwy mo'r ysgyfarnog fach,
Y brid sydd rhwng Llanllechid a Llanrwst.
Pa fodd y gallai blwyfo fel o'r blaen
Yn yr un cwmwd â'r ysgerbwd gwyn?
A rhoi ei chorff i orffwys ar y waun
Dan yr un wybren â'i asennau syn?
Ba sentimentaleiddiwch! Heddiw'r pnawn,
O'r eithin wrth ei fôn fe wibiodd pry'
Ar garlam igam-ogam hyd y mawn,
Ac wele, nid oedd undim ond lle bu;
Fel petai'r llymbar llonydd yn y gwellt
Wedi rhyddhau o'i afael un o'i fellt.

Wrth i'r pnawn lithro i'r hwyrddydd, teimladau dwysach sy'n golchi dros R. Williams Parry fel rheol. Meddai o am y mynydd yn yr hwyr: 'lleddf, lleddf yr awron yw'r llyn'. Mae'r tawelwch yn

'estyn drosto ryw hwyrol dristwch'. Mae'n canfod hiraeth yn y môr ac yn y mynydd, a hefyd 'yn oriau'r machlud'. Geiriau fel 'galar' a 'cwyn' sydd ganddo i ddisgrifio awelon yr hwyr ac mae 'na elfen o ofn a dychryn wrth iddo deimlo 'su dieithr nos dywyll'.

Unwaith eto, mae'r hen grebwyll dynol wedi dod yn ôl i darfu arno mae'r diniweidrwydd wedi'i gollu a gormes amser, pwysau diwedd y daith yn ei glwyfo.

Cyn gadael RWP, rhaid i mi adrodd un stori sy'n f'atgoffa i am waith y bardd hwnnw bob tro. Roedd hi'n nesu at gyfnod o arolygaeth felltith mewn ysgol fach wledig. Bu'r athro yn paratoi yn gydwybodol - roedd ganddo wers wyddoniaeth oedd yn dangos trydan yn cael ei gynhyrchu. Mi fu wrthi gyda'r nosau am wythnosau yn adeiladu melin ddwr a thyrbein, weirio, gosod byl b a chael hwnnw i oleuo. Dyma'r awr fawr yn dod a'r arolygydd yn eistedd yn y gornel yng nghefn y dosbarth: cyflwynodd yr athro ei destun yn llafar, ac yna gwneud prawf ymarferol a phopeth yn gweithio yn wych. Roedd yn ddramatig a llwyddiannus. 'Wel,' meddai o yn orfoleddus wrth y dosbarth ar ôl yr hanner awr o esbonio ac arddangos, 'oes gan rywun gwestiwn?' Mudandod llethol. 'Wel oes gan rywun rw bath o gwbl i'w ddeud ta?' Ymhen hir a hwyr, un fraich yn codi yn y cefn - 'Arwel!' A dyma Arwel yn dweud: 'Mi welais i lwynog neithiwr, syr.'

Bardd arall y mae gen i barch ac edmygedd mawr ato, ac un sy'n ymddiddori'n ddwfn ym myd natur ac yng nghydbwysedd ecolegol y ddaear ydi Gwyn Thomas. Yn groes i'r hyn sy'n cael ei draethu yn y Salmau, fod dyn wedi'i roi i dra-arglwyddiaethu ar greaduriaid, mi ddwedodd Gwyn Thomas unwaith mai cyd-letywyr â byd natur ydan ni yn y byd.

Mae barddoniaeth Gwyn Thomas yn gyson yn dod â ni at erchwyn y dibyn, yn dinoethi'r hen ddeall hwnnw o'n tynged y mae'n llawer brafiach gennym ei wthio o dan y carped. A gwneud hynny y mae o nid er mwyn bod yn amheus o werth bywyd, ond er mwyn dangos mor amhrisiadwy ydi pob munud rhyfeddol o'n bywydau.

Mae cylch y tymhorau, tro'r echel sy'n dod â goleuni i ganlyn tywyllwch yn amlwg yn ei gerddi ond dwi wedi dewis dwy gerdd ganddo un am wawr a'r llall am fachlud sy'n gyfangwbl wahanol eu hergydion i'r hyn gawsom ni gan R. Williams Parry.

Yn y gerdd am y wawr, mae'r golau newydd, sy'n codi'n drawiadol fel aderyn gwyn o'r dâr, yn cael ei chwalu gan ergyd o wn. Mi fedrwch ffitio eich profiadau a'ch themâu eich hunain ar y ddelwedd honno a chael myrdd o enghreifftiau o ddiniweitrwydd heddychlon, gobeithiol yn cael ei ddinistrio.

Yr Aderyn Gwyn

Aderyn mawr, aderyn gwyn
O'r dâr i'r wawr yn esgyn.
Aderyn gwyn o'r dâr,
O'r dâr yn ddwndwr disglair
I'r wawr, i'r wawr yn esgyn.

Llaeth, eira, ewyn; gwyn,
Gwyn, gwyn; aderyn
A chyrraedd ei adenydd
Dros aur y wawr yn estyn.
Aderyn gwyn ar doriad dydd
Yn ir o'r dâr yn esgyn.

A'r byd, y byd o dano,
Y byd o dan 'r aderyn gwyn,
Y byd yn dechrau deffro,
Yn torri ma's yn lliwiau;
Ac yntau, yr aderyn gwyn,
I'r awyr bur yn esgyn.

Ac yna ergyd
Yn dryllio'r bore, malu'r byd.
Ffroen fetel gwn yn mygu,
A'r gwynder a'r aderyn
O'r bore hwnnw'n disgyn.

Ac yn yr hesg, y gwynt,
Y gwynt yn llesg yn troelli.
Awyr eglur, eglur; wag;
Ac ynddi'r gwynt yn troelli,
Y gwynt yn llesg a phluen,
Un bluen waedlyd, wen.

Gyda gwawr Gwyn Thomas mor annisgwyl, mi allwn amcanu felly na fyddai ei ddarlun o fachlud mor lleddf a therfynol ag un R. Williams Parry. Ac unwaith eto, chawn ni mo'n siomi. Tawelwch tragwyddol y machlud dros aber afon gyda dau alarch yn rhan o'r lliwiau aur sydd ganddo i'w gyflwyno inni.

Y mae yna Amserau

**Y mae yna amserau
Ym mywyd pawb ohonom
Pan gawsom ni gip ar rywbeth
Tu draw i gnawd,
Tu hwnt i amser.**

**Megis, gyda'r machlud ambell ddydd,
A'r byd i gyd yn llonydd
Y daw hudoliaeth felen
A throi ein horiau'n aur.
Ac y daw i'r dyfroedd tawel,
Fel adar o ryw fro
Lle nad oes galar yno
Na gwae nac unrhyw gur,
Ddau alarch distaw
I ennyn ynom ni, ar derfyn dydd,
Ryw gof am fyd tragywydd.**

**Yr adeg hon o'r flwyddyn, mi fydda' i'n dechrau ar fy nheithiau cyn
y wawr i fynd i 'ngwaith yn Llanrwst neu i gyfarfod yn
Aberystwyth neu at ddosbarth o blant yn ne Cymru. Teithio tua'r
dwyrain y bydda' i yn ddi-ffael a rhan o bleser pob taith yn dod i
gyfarfod y wawr. Mae'n anodd cornelu'r union eiliad pan fo
tywyllwch dall yn troi'n llwydni'n gweld pethau bach. Pethau
bychain ydi arwyddion o ddydd yn dod bob amser dail unigol y
gwelldglas, rychau boncyffion coed, cen ar gerrig tñ. Taith i'r
wawr sydd yn y soned hon, ac mi mae'n cynrychioli'r pethau sydd
ar droed yng Nghymru ar ddechrau'r ganrif newydd:**

Ar lôn y wawr

Rhwng gogledd a de Cymru

**Mi welaf batrwm cerrig tar a graen
y polion ffens yng ngwelw'r bore bach
mae rhywun yn tarmacio'r lôn o 'mlaen,
yn tracio'r nos a'i hel yn ôl i'w sach;
Mae gwelltyn gwyn yn codi'i ben mewn cae;
ôl cñn ar lechen, mwsog cerrig tir
i'w weld rhwng anadl darth y gwartheg; mae
gwythiennau'r dail yn weledigaeth glir.
Pan ddof o'r du i'r dydd ar linell wen
fy lampau, dim ond congl ydi'r wawr:
rownd hon, a llwyd y byd tu hwnt i'r llen
sy'n llif o olau, cyn y chwyldro mawr**

**sy'n troi holl botiau paent y pelydr cynnar
yn wlad o liw dros gynfas wag y ddaear.**

**Os oes 'na wawr, mae 'na fachlud. Mae ffarwelio wastad yn anodd. Medi y
llynedd oedd hi – mynd am y gorllewin heibio Dôl Gam, Capel Curig a hithau'n
hwyr brynhawn. Ro'n inna wedi colli ffrind ac roedd arwyddion y darfod ym
mhobman – lliwiau hydref yn y rhedyn, bedw, derw, Siabod; lliwiau machlud
yn yr awyr. Er bod y cyfan fel aur, lliwiau marw oeddau nhw. Yna dyma weld
fan wedi'i parcio'n flêr ac yn fryslog ym môn y clawdd. Roedd y goleuadau
oren yn fflachio ac yn y cae, roedd yna olygfa anarferol: ffermwr Dol Gam yn
tynnu llo yn y cae wrth ochr y ffordd fawr. Roedd o fel rhyw Herciwles o'r hen
oes yn tynnu coesau'r llo efo'i holl nerth, hwnnw hanner allan â'i ben i lawr.**

**Mae'r darfod yn dew, y pelydrau'n isel,
Rhedynnau gwaed yn crino ar y garth,
Mae Medi'n gadael ôl ei fawd ar y ddeilen
A'r cysgodion hirion yn chwedleua yn y tARTH.**

**Marwaidd, ond melys, ydi oglau'r cloddiau –
Mae'r haf yn gwrthod ildio'i faes yn hawdd;
Ar ffordd yr A Pump, dau olau 'Cym Bwyll' yn fflachio
A pharcio brys fan Dôl Gam yn nhin y clawdd.**

**Dan liwiau'r llofrudd yn y derw a'r ffawydd,
Mae gwr wrth goesau'r groth yn llewys ei grys;
Mae'r geni'n dynn, a choch yr hanner esgor
Yn llifo'n gymysg â rhedyn y ffridd a'r chwys.**

**Arafwn, â'r machlud yn ein llygaid, a dyna pryd
Y tynnir, yn erbyn yr haul, lo bach i'r byd.**

Myrddin ap Dafydd